11.11.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Bryn Fôn yn edrych yn ôl ar ymgyrchoedd Meibion Glyndŵr

Mae Bryn Fôn wedi ennill ei le fel un o berfformwyr mwyaf eiconig Cymru, gyda'i bresenoldeb cyson ar lwyfannau a setiau teledu dros y pedwar degawd diwethaf.

Yn ystod y cyfnod, mae Bryn sy'n wreiddiol o Lanfyllin, wedi rhyddhau cyfresi o ganeuon poblogaidd sy'n adlewyrchu bywyd a chymdeithas gyfoes. Ond yn 1990 fe darodd Meibion y Fflam - trac gan fand Bryn, Sobin a'r Smaeliaid, y nodyn anghywir gyda'r heddlu. Wedi ei ysbrydoli ar ôl apêl am wybodaeth ar ymgyrch llosg tai haf Meibion Glyndŵr ar y rhaglen *Crimewatch UK*, roedd y gân yn gwawdio'r diffyg cynnydd yn yr ymchwiliad.

Er i'r ymgyrch fod yn weithredol o 1979, roedd deng mlynedd wedi mynd heibio ers i'r heddlu arestio unrhyw un - nes arestiwyd Bryn yn 1990. Yn 35 mlwydd oed ar y pryd, mae'r digwyddiad wedi cael cryn effaith ar ei fywyd byth ers hynny. Bydd Bryn yn siarad o'r galon am y profiad ar S4C nos Iau 25 Tachwedd am 9.00.

"Mae rhywun yn cysylltu tai haf a Meibion Glyndŵr efo Bryn Fôn - mae'r cysylltiad wedi ei wneud," meddai Bryn. "Mae'n siŵr bod 'na bobl sydd hyd heddiw yn meddwl mod i wedi gwneud rhywbeth a 'mod i wedi dod allan ohoni rywsut - wedi cal 'get awê' efo'i os liciwch hi. Mae hynna'n rhywbeth dwi'n gorfod derbyn am wn i."

Ar ôl pum diwrnod o gael ei gwestiynu, rhyddhawyd Bryn heb gyhuddiad. Er nad oedd e'n aelod o Feibion Glyndŵr, roedd yn gefnogol o'r ymgyrch a welwyd 239 o dai yng Nghymru yn cael eu difrodi rhwng 1979 a 1991.

30 mlynedd ers iddo gael ei arestio mae Bryn yn holi pwy oedd Meibion Glyndŵr mewn gwirionedd. A oedd yna gelloedd o weithredwyr ar draws Cymru, neu ai'r gwasanaethau cudd oedd tu ôl i'r cyfan? Mae'n holi cenedlaetholwyr eraill gafodd eu hamau ac yn cwrdd â pherchennog tŷ haf gafodd ei losgi ac am y tro cyntaf ers y diwrnod hwnnw yn 1990 yn siarad gyda'r plisman wnaeth ei arestio.

Er i neb gael eu hanafu o ganlyniad i'r ymosodiadau llosgi, daw i'r amlwg fod llawer wedi dioddef, gan gynnwys teulu Bryn.

"Oedd o'n gyfnod anodd iawn i fy mhartner Anna achos doedd hi ddim yn gwybod pwy i goelio, dim ots faint o ni'n dweud bo fi ddim 'di gwneud. Wedyn, o na adeg lle doedda ni ddim fel tasa ni'n dod mlaen cystal, oedd o wedi siglo'r berthynas.

“Mi wnaeth o’n sicr effeithio ar iechyd Mam a Dad - pobl gyffredin, dosbarth gweithiol oedd yn meddwl fod yr Heddlu wastad yn gywir, wastad yn gwneud y peth iawn a wastad yna i wasanaethu y cyhoedd. Fasa nhw byth yn cwestiynu a oedd yr heddlu yn gallu gwneud unrhyw beth allan o’i le. Ac yn sydyn oedd hyn i gyd - ac wrth gwrs, fyswn i ni’n meddwl bod nhw’n amau mod i wedi gwneud.”

Mewn ymgais i ddarganfod os byddai eu dewisiadau a’u gweithredoedd yn wahanol heddiw, bydd Bryn yn holi yr unig berson sydd wedi ei garcharu am weithredu yn enw Meibion Glyndwr, Sion Aubrey Roberts.

A gyda sefyllfa’r farchnad dai yn peri gofid i gymunedau ar draws Cymru hyd heddiw, bydd hefyd yn gofyn beth ydyn ni wedi dysgu o ymgyrch Meibion Glyndŵr. A'i arwyr oedd tu ôl i'r ymgyrch, neu derfysgwyr? Ac wrth i brisiau tai barhau i gynyddu a chael eu perchnogi gan bobl y tu allan i Gymru, oedd y frwydr yn ofer?

Bryn Fôn - Chwilio am Feibion Glyndŵr
Nos Iau 25 Tachwedd, 9.00
Isdeitlau Saesneg
Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Zwwm Films ar gyfer S4C

11.11.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Bryn Fôn looks back at the Meibion Glyndŵr campaign

Bryn Fôn has earned his place as one of Wales's most iconic performers. During a career spanning four decades, he has either been singing to large crowds or appearing as an actor on the small screen.

During this period, Bryn, originally from Llanfyllin, has released a series of popular songs that reflect contemporary life and society. But in 1990, Meibion Y Fflam - a track by Bryn's band Sobin a'r Smaeliaid, struck the wrong chord with the police. Inspired by a Crimewatch UK appeal for information on the Meibion Glyndŵr arson campaign that targeted holiday homes, the song mocked the lack of progress in the investigation.

Despite the campaign being operational from 1979, there had been no arrests in 10 years - until Bryn was arrested in 1990. At the time Bryn was 35 years old and the incident has had a significant impact on his life ever since. Bryn speaks from the heart about the experience on S4C on Thursday, 25 November at 9.00.

"People tend to link holiday homes and Meibion Glyndŵr with Bryn Fôn - the connection has been made," said Bryn. "I'm certain there are people who think to this day that I was guilty of doing something but came out of it somehow – that I got away with it, if you like. That's something I have to accept I guess."

After five days of questioning, Bryn was released without charge. Although he wasn't a member of Meibion Glyndŵr, he did support the campaign which saw 239 houses in Wales damaged between 1979 and 1991.

30 years since his arrest Bryn asks who Meibion Glyndŵr really were. Were there cells of activists across Wales, or were the secret services behind it all? He questions other suspected nationalists, meets the owner of a burnt-out holiday home, and for the first time since that day in 1990 talks to the policeman who arrested him.

Although no one was injured as a result of the attacks, it becomes clear that many people suffered, including Bryn's family.

"It was a very difficult time for my partner Anna because she didn't know who to believe, no matter how many times I said I didn't do it. After the arrest, we didn't seem to get on so well because of the tension it had caused in the relationship.

"It definitely affected the health of my mum and dad – who were ordinary, working class people who thought the police were always right, always did the right thing and

there to serve the public. They would never question whether the police could do anything wrong. All of a sudden, this happened and I'm sure they did have their doubts about me for a while."

In an attempt to find out if choices and actions might be different today, Bryn questions the only person jailed for acting in the name of Meibion Glyndŵr, Siôn Aubrey Roberts.

With the current state of the housing market causing concern in communities across Wales to this day, he also asks what we have learned from the Meibion Glyndŵr campaign. Was it heroes behind the campaign, or terrorists? And as house prices continue to rise and continue to be purchased by people outside Wales, was the battle in vain?

Bryn Fôn - Chwilio am Feibion Glyndŵr
Thursday 25 November, 9.00
English subtitles available
On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms
A Zwwm Films production for S4C